OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 69 (Cy. 10)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Ionawr 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *29 Ionawr 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Chwefror 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn, gyda chydsyniad y Trysorlys, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Cyllid 1973(**1**), sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 24 Chwefror 2020.

**Diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Ar ôl rheoliad 6 mewnosoder—

"**Tatws sy'n tarddu o Libanus: ffi**

**6A.**—(1) Pan fo arolygydd yn cymryd sampl o datws sy'n tarddu o Libanus er mwyn canfod, at ddibenion Erthygl 4 o'r Penderfyniad, pa un a yw'r tatws hynny wedi eu heintio ag is-rywogaethau *Clavibacter michiganensis* (Spieckermann and Kotthoff) Davis et al., rhaid i'r mewnforiwr dalu ffi o £70.83 mewn cysylltiad â phob lot sy'n cael ei samplu.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "y Penderfyniad" yw Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1614 sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau rhag darpariaethau penodol Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn cysylltiad â thatws,

(**1**) 1973 p. 51; diwygiwyd adran 56(1) gan O.S. 2011/1043, ac mae wedi ei diwygio yn rhagolygol gan baragraff 17 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) o ddyddiad ac amser sydd i'w bennu.

(**2**) Yn rhinwedd adran 59(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2018/1179 (Cy. 238), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1378 (Cy. 244).

ac eithrio tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ranbarthau Akkar a Bekaa, Libanus(**4**)."

(3) Yn lle Atodlen 2 rhodder—

"ATODLEN 2

Rheoliad 3(2) a (3)

Ffioedd arolygu mewnforio: cyfraddau gostyngol

| *Genws* | *Gwlad Tarddiad* | *Ffi (£)* |
|---|---|---|
| **Blodau wedi eu torri** | | |
| *Aster* | Zimbabwe | 32.06 |
| *Dianthus* | Colombia | 1.28 |
| | Ecuador | 6.41 |
| | Kenya | 2.14 |
| | Twrci | 6.41 |
| *Rosa* | Colombia | 1.28 |
| | Ecuador | 0.43 |
| | Ethiopia | 2.14 |
| | Kenya | 4.28 |
| | Tanzania | 21.38 |
| | Zambia | 4.28 |
| **Canghennau gyda deiliant** | | |
| *Phoenix* | Costa Rica | 17.00 |
| **Ffrwythau** | | |
| *Actinidia* | Unrhyw drydedd wlad | 2.66 |
| *Carica papaya* | Unrhyw drydedd wlad | 2.66 |
| *Citrus* | Yr Aifft | 39.83 |
| | Mecsico | 26.55 |
| | Moroco | 1.59 |
| | Periw | 5.31 |
| | Twrci | 1.59 |
| | UDA | 13.28 |
| *Cydonia* | Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop[(1)] | 2.66 |
| *Fragaria* | Unrhyw drydedd wlad | 2.66 |

**(1)** Mae "drydedd wlad yn Ewrop" yn cynnwys Albania, Andorra, Armenia, Azerbaijan, Belarws, Bosnia-Herzegovina, Yr Ynysoedd Dedwydd, Ynysoedd Faröe, Georgia, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Moldofa, Monaco, Montenegro, Gogledd Macedonia, Norwy, Rwsia (dim ond y rhannau a ganlyn: Y Rhanbarth Ffederal Canolog (Tsentralny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y Gogledd-orllewin (Severo-Zapadny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y De (Yuzhny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal Gogledd y Cawcasws (Severo-Kavkazsky federalny okrug) a Rhanbarth Ffederal y Folga (Privolzhsky federalny okrug)), San Marino, Serbia, Twrci ac Ukrain.

(**4**) OJ Rhif L 250, 30.9.2019, t. 85.

| *Genws* | *Gwlad Tarddiad* | *Ffi (£)* |
|---|---|---|
| *Malus* | Yr Ariannin | 18.59 |
| | Brasil | 26.55 |
| | Chile | 2.66 |
| | Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop[(1)] | 2.66 |
| | Seland Newydd | 5.31 |
| | De Affrica | 2.66 |
| *Mangifera* | Brasil | 26.55 |
| *Passiflora* | Colombia | 3.72 |
| | Kenya | 13.28 |
| | De Affrica | 26.55 |
| | Fiet-nam | 13.28 |
| | Zimbabwe | 39.83 |
| *Persea americana* | Unrhyw drydedd wlad | 2.66 |
| *Prunus* | Yr Ariannin | 39.83 |
| | Chile | 5.31 |
| | Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop[(1)] | 2.66 |
| | Moroco | 26.55 |
| | Twrci | 18.59 |
| *Prunus ac eithrio prunus persica* | De Affrica | 5.31 |
| *Pyrus* | Yr Ariannin | 7.97 |
| | Chile | 7.97 |
| | Tsieina | 26.55 |
| | Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop[(1)] | 2.66 |
| | De Affrica | 5.31 |
| *Ribes* | Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop[(1)] | 2.66 |
| *Rubus* | Unrhyw drydedd wlad | 2.66 |
| *Vaccinium* | Yr Ariannin | 13.28 |
| | Chile | 5.31 |

**(1)** Mae "drydedd wlad yn Ewrop" yn cynnwys Albania, Andorra, Armenia, Azerbaijan, Belarws, Bosnia-Herzegovina, Yr Ynysoedd Dedwydd, Ynysoedd Faröe, Georgia, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Moldofa, Monaco, Montenegro, Gogledd Macedonia, Norwy, Rwsia (dim ond y rhannau a ganlyn: Y Rhanbarth Ffederal Canolog (Tsentralny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y Gogledd-orllewin (Severo-Zapadny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y De (Yuzhny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal Gogledd y Cawcasws (Severo-Kavkazsky federalny okrug) a Rhanbarth Ffederal y Folga (Privolzhsky federalny okrug)), San Marino, Serbia, Twrci ac Ukrain.

| *Genws* | *Gwlad Tarddiad* | *Ffi (£)* |
|---|---|---|
| | Periw | 5.31 |
| | Unrhyw drydedd wlad yn Ewrop[(1)] | 2.66 |
| *Vitis* | Unrhyw drydedd wlad | 2.66 |
| **Llysiau** | | |
| *Solanum lycopersicon* | Yr Ynysoedd Dedwydd | 2.66 |
| | Moroco | 2.66 |
| *Solanum melongena* | Twrci | 7.97" |

**(1)** Mae "drydedd wlad yn Ewrop" yn cynnwys Albania, Andorra, Armenia, Azerbaijan, Belarws, Bosnia-Herzegovina, Yr Ynysoedd Dedwydd, Ynysoedd Faröe, Georgia, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, Moldofa, Monaco, Montenegro, Gogledd Macedonia, Norwy, Rwsia (dim ond y rhannau a ganlyn: Y Rhanbarth Ffederal Canolog (Tsentralny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y Gogledd-orllewin (Severo-Zapadny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal y De (Yuzhny federalny okrug), Rhanbarth Ffederal Gogledd y Cawcasws (Severo-Kavkazsky federalny okrug) a Rhanbarth Ffederal y Folga (Privolzhsky federalny okrug)), San Marino, Serbia, Twrci ac Ukrain.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

28 Ionawr 2020

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018 ("Rheoliadau 2018") sy'n pennu ffioedd sy'n daladwy i Weinidogion Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd planhigion ac ardystio tatws hadyd a phlanhigion ffrwythau a deunydd lluosogi planhigion ffrwythau.

Mae rheoliad 2(2) yn mewnosod rheoliad 6A yn Rheoliadau 2018 i ddarparu ar gyfer y ffi sy'n daladwy gan fewnforiwr tatws sy'n tarddu o Libanus pan fo arolygydd yn cymryd samplau o lot tatws at ddibenion Penderfyniad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1614 sy'n awdurdodi Aelod-wladwriaethau i ddarparu ar gyfer rhanddirymiadau rhag darpariaethau penodol Cyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC mewn cysylltiad â thatws, ac eithrio tatws a fwriedir ar gyfer eu plannu, sy'n tarddu o ranbarthau Akkar a Bekaa, Libanus (OJ Rhif L 250, 30.9.2019, t. 85).

Mae rheoliad 2(3) yn amnewid Atodlen 2 i Reoliadau 2018, sy'n nodi ffioedd cyfradd gostyngol sy'n daladwy gan fewnforiwr llwyth o drydedd wlad ar gyfer gwiriadau iechyd planhigion mewn cysylltiad â phlanhigion penodol a chynhyrchion planhigion penodol sy'n ddarostyngedig i lefelau is o wiriadau y cytunwyd arnynt o dan y weithdrefn y darperir ar ei chyfer yn Erthyglau 13a(2) a 18(2) o Gyfarwyddeb y Cyngor 2000/29/EC ynghylch mesurau diogelu rhag cyflwyno i'r Gymuned organebau sy'n niweidiol i blanhigion neu i gynhyrchion planhigion a rhag eu lledaenu o fewn y Gymuned (OJ Rhif L 169, 10.7.2000, t. 1). Mae'r rheoliad hwn yn rhoi effaith i'r hysbysiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd am y lefelau is o wiriadau iechyd planhigion sy'n gymwys i blanhigion penodol ac i gynhyrchion planhigion penodol (a gyhoeddwyd ar 19 Tachwedd 2019).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.